

# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Chwefror 5ed 2019 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones (Cadeirydd), Eilir Rowlands, Alwyn Jones, Eifion Davies, Maldwyn Jones, Gwenda Morris, Gary Thomas Dewi Pritchard, Meilir Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rita Jones, Gethin Morris, Iolo Evans a Gwenda Evans.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

## **ii) Datgan Buddiant.**

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

## **iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Mynwent Llandderfel - cytunwyd i osod arwydd penodol yn cyfeirio at y cerrig beddi a oedd wedi cael ei marcio a thap gyda chais i'r teuluoedd estynedig gysylltu â'r cler cyn gynted a phosib. Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol cael hysbysfwrdd wrth fynedfa'r fynwent a gofynnwyd i'r cler gael amcan brisiau.

## **b) Diogelu Data.**

Adroddodd y cler ei bod yn parhau i ddatblygu'r dogfennau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer y broses 'Diogelu Data'. Cytunwyd i fabwysiadu'r polisi dwyieithog ar gyfer y wefan.

## **c) Triathalon Y Bala.**

Cafwyd cadarnhad fod yr asiantaethau perthnasol wedi dod i gytundeb ac y bydd 'Bash Fawr Y Bala' yn cael ei gynnal ar benwythnos olaf mis Mehefin.

## **ch) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-**

i) A494 Cefnnddwysarn, cais am arwydd ar y gyffordd yn cyfeirio pobl tuag at Gwm Main – cafwyd cadarnhad fod y mater wedi cael ei drosglwyddo i'r adran berthnasol yng Nghaernarfon.

ii) Bocs gwyrdd a'r gyffordd Cletwr o'r Pale i'r B4391 (ffordd Bala i Langynog) - cafwyd cadarnhad fod yr archwilydd priffyrdd wedi ymweld â'r safle ac o'r farn nad oedd yn amharu ar welededd gyrrwyr.

Gofynnwyd i'r cler gysylltu â BT yn uniongyrchol i fynegi eu pryder am leoliad y bocs newydd ar y gyffordd.

iii) Lloches bws newydd yn Llanfor -yn dilyn amryw o e-byst rhwng y cler, Cyngor Gwynedd a'r Asiantaeth Cefnffyrdd dros y misoedd diwethaf roedd yr Asiantaeth wedi cydnabod mae eu cyfrifoldeb hwy oedd cynghori'r Cyngor Cymuned ar leoliad y lloches newydd.

iv) Symud polyn trydan ger cyffordd yr A494 yng Nghefnnddwysarn - yn dilyn ymholiadau unwaith eto cafwyd ymddiheuraid gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd nad oeddynt wedi dilyn fyny ein cais gyda'r cwmni trydan. Cafwyd addewid y byddai hyn yn cael ei wneud ar fyrder.

## **iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### **a) Amrywiol**

i) Cyngor Gwynedd – Chopi o'i 'Bwletin Byw'n Iach'.

ii) Cyngor Gwynedd – 'Arolwg Strategaeth Ariannol' cais i'r cynghorwyr fynegi barn ar eu cynigion i wneud arbedion ariannol.

iii) Grŵp Cynefin - Gwybodaeth am fflat a oedd cael yn Y Bala.

iv) Canolfan Henblas – gwahoddiad i fynychu diwrnod agored i sefydliadau lles yn y Ganolfan ar yr 22ain o Chwefror.

## **v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i'w cefnogi:-

C18/1155/04/LL – Trosi adeilad yn fusnes clustogi dodrefn, uned byw ynghyd ac anecs ategol. Capel Saron, Llandderfel.

C18/1179/04/LL – Adeiladu ty amaethyddol. Ty'n y Llechwedd, Llandderfel.

C18/1158/04/LL – Addasu adeiladau allanol yn 3 uned gwyliau gyda llety perchennog. Beudy Bryn Banon, Llanfor.

NP5/63/277 – Codi adeilad amaethyddol. Tyddyn Barwn, Llandderfel.

Trafodwyd y cais isod a phenderfynwyd anfon sylwadau yn unig gan nodi eu pryderon am uchder y sied, ei agosrwydd i'r anheddau cyfagos a'i leoliad mewn ardal sy'n cael ei effeithio gan lifogydd.

C19/0073/04/LL – Codi adeilad amaethyddol. Cae O.S. 2700, Llandderfel.

## **vi) Materion Ariannol.**

### **a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).**

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

### **b) Penodi Archwiliwr Mewnol a Ffioedd Archwilio 2018-19**

Cytunwyd yn unfrydol i benodi Uned Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd i archwilio'r cyfrifon eleni.

Gofynnwyd i'r clerc anfon y llythyr ymrwymiad arferol iddynt. Derbyniwyd hefyd chopi o'r rhestr ffioedd archwilio 2018-19 gan y Swyddfa Archwilio Cymru.

### **c) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-**

Neuadd Bro Derfel (Ilogi), Deiniol Davies (tocio gwrych mynwent Llandderfel). Yn dilyn cais blaenorol pwyllgor y Neuadd cytunwyd i dalu'r pris cyfredol o £20 y tro am logi'r yn hytrach na'r £10 a chyfrannwyd yn y gorffennol. Mi roedd y cynghorwyr yn ymwybodol o'r pwysau ariannol o gynnal a chadw'r neuaddau a chytunwyd i dalu'r un swm i'r neuaddau eraill am eu defnyddio.

### **ch) Ceisiadau ariannol**

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Llen y Llannau, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru, Cantref, Eisteddfod yr Urdd Cylch Penllyn a Theatr Bara Caws. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

## **vii) Materion lleol.**

### **a) Graeanu ffyrdd a biniau halen.**

Yn ystod yr wythnosau diwethaf roedd y clerc wedi derbyn nifer o gwynion am y diffyg halen yn y biniau ac amharodrwyd Cyngor Gwynedd i raeau'r ffordd yn ystod y tywydd garw. Trafodwyd y mater a ategwyd eto mae penderfyniad cyllidol Cyngor Gwynedd oedd peidio llenwi'r biniau halen a'u bod wedi gorfodi'r cyfrifoldeb ymlaen i'r Cynghorau Cymuned er nad oedd ganddynt y gyllideb na'r adnoddau i'w weinyddu. Adroddodd y clerc fod y Cyng. Elwyn Edwards wedi llwyddo i drefnu cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i geisio cael datrysiaid i'r broblem.

### **b) Cais ynglŷn â charreg fedd ym mynwent Llandderfel.**

Roedd y clerc wedi derbyn cais drwy un o'r seiri maen lleol i gymryd carreg fedd o'r fynwent er mwyn ychwanegu geiriad newydd. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y byddai'r cyngor angen caniatâd ysgrifenedig gan y ddau aelod perthnasol o'r teulu cyn caniatáu hyn.

### **c) Cerflun John Meirion Morris.**

Roedd y clerc wedi derbyn cais gan y cylchgrawn Golwg yn gofyn am ymateb y Cyngor i'r drafodaeth ddiweddar i ailymweld a'r ymgyrch i godi'r cerflun ar lan Llyn Celyn. Gan nad oedd y Cyngor wedi derbyn unrhyw wybodaeth swyddogol am y mater cytunwyd i beidio gwneud unrhyw sylwad ar hyn o bryd.

### **ch) Difrod i'r lloches bws yn Sarnau.**

Ym mis Rhagfyr tarodd cerbyd yn erbyn y lloches bws gan achosi difrod sylweddol. Roedd y clerc wedi cymryd y camau priodol drwy gysylltu â'r heddlu a chwmni yswiriant y Cyngor er mwyn hawlio'r costau o ail adeiladu'r lloches gan gwmni yswiriant y gyrrwr. Derbyniwyd amcan bris gan ddau adeiladwr lleol ar gyfer y gwaith.

d) Cytunwyd i basio'r cwynion canlynol ymlaen i adrannau perthnasol:-

- i) Clirio/agor ffosydd ger Coed Bedo, Cefnddwysarn a chyffordd Tŷ Tan Dderwen, Glanrafon gan fod dŵr yn dod i'r ffordd ac yn rhewi yn ystod y gaeaf.
- ii) Sgwâr pentref Llandderfel - yn ystod y tywydd rhewllyd yn ddiweddar roedd tarmac y Sgwâr wedi bod yn llithrig iawn (diffyg graean a'r tarmac yn llyfn iawn) a bu bron i gerbyd lithro wrth ddod dros y bont.
- iii) Cylfat gwaelod ffordd Hengaer, Glanrafon, A494 – roedd lori wedi symud carreg allan o'i le.
- iv) Cais i osod arwydd yn rhybuddio lorïau mawr i beidio defnyddio'r ffordd fach heibio'r Bryn Tirion, Llandderfel i gyfeiriad Llangynog.
- v) Ysbwriel yn yr encilfa ym Methel, A494 - roedd nifer o deiars wedi cael eu gadael yn yr encilfa. Gan ei fod yn broblem gynyddol, cytunwyd i ofyn am arwyddion yn rhybuddio pobl i beidio tipio slei bach.
- vi) Polion amserlen bws o flaen y lloches yng Nghefnddwysarn - cais i dynnu'r polion a oedd yn arfer dal yr amserlen bws cyhoeddus i lawr.
- vii) Llwybr Ceffylau Gors y Sarnau - cwyn fod y llwybr wedi cau i fyny.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos  
Fawrth, Mawrth 5ed yn Neuadd  
Mynach am 7.30 y.h.**